

## **Negeseuon allweddol o gyfarfod mis Tachwedd 2017 Bwrdd Cyflawni Cynnwys y Cyhoedd**

Mae'r Bwrdd yn gweithio gyda Doeth am Iechyd Cymru i gynhyrchu polisi eglur ar gynnwys y cyhoedd, yn unol â'r bwriad o reoli'r prosiect hwn gyda'r cyhoedd, er budd y cyhoedd. Fe fydd y Bwrdd yn helpu i sicrhau bod y prosiect yn cael ei reoli er budd y cyhoedd, ac er budd pobl Gymru, trwy alw am dystiolaeth o gynnwys y cyhoedd ac o'i effaith, ac adolygu'r dystiolaeth honno. Fe fydd y ddogfen hon ar gael i'r cyhoedd ei gweld cyn bo hir ar wefan Doeth am Iechyd Cymru.

Mae'r Bwrdd yn awyddus i gefnogi'r seilwaith ymchwil wrth iddyn nhw ddatblygu eu cynlluniau ymhellach ar gyfer cynnwys y cyhoedd, a rhoi'r cynlluniau hyn ar waith. Mae hefyd yn awyddus i annog mabwysiadu safonau'r DU ar gyfer cynnwys y cyhoedd sydd ar fin cael eu lansio. Mae aelodau'r cyhoedd eisoes yn cymryd rhywfaint o ran mewn nifer o ganolfannau ac unedau, ond cytunwyd i anfon llythyr at benaethiaid yr holl ganolfannau ac unedau i godi ymwybyddiaeth yn fwy eang o rôl Bwrdd Cyflawni Cynnwys y Cyhoedd, ac i weithio gyda thîm rheoli contractau Llywodraeth Cymru i benderfynu lle byddai'n well cyfeirio cynnig cymorth wedi'i dargedu.

Mae'r Bwrdd yn cefnogi datblygu Panel Cyfeirio Cyhoeddus, a fyddai'n cynnwys aelodaeth o ystod eang o'r cyhoedd, a allai ddarparu gwasanaeth ymatebol a gwerthfawr i adolygu unrhyw gyfathrebu y bwriedir ei wneud. Fe fydd bwrw ymlaen â hyn yn destun trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Ganolfan Cymorth.

Mae gwobr Cyflawniad Cynnwys y Cyhoedd wedi'i datblygu a'i chyflawni'n gyflym ac yn effeithlon, a'r farn yw ei bod wedi bod yn llwyddiannus. Cytunwyd y caiff yr alwad am gynigion ei chyhoeddi'n gynharach y flwyddyn nesaf ac yr ystyrir ymgorffori'r gofyniad i ddangos amrywiaeth wrth gynnwys y cyhoedd. Cytunwyd i gael adborth oddi wrth y rheini a gymerodd ran, a'r rheini na chymerodd ran, fel bod modd ystyried yr adborth hwn wrth gynllunio pethau yn y dyfodol. Cytunwyd i gyhoeddi manylion yr holl gynigion, fel y bwriadwyd ei wneud yn wreiddiol, er mwyn cydnabod cyflawniadau ond hefyd er mwyn hybu arfer da.